



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid

Adroddiad dros dro am y canfyddiadau  
hyd yn hyn

9 Chwefror 2016

# Rhagair gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Roeddwn wrth fy modd pan gytunodd Charlie Taylor i arwain adolygiad o'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae ei brofiad fel pennaeth rhagorol ar ysgol arbennig i blant ag anawsterau ymddygiad yn ei wneud yn hynod o addas i ystyried sut byddwn yn ymateb i rai o'r plant mwyaf agored i niwed a heriol yn ein cymdeithas. Rwy'n eithriadol o falch heddiw o gyflwyno'r canfyddiadau sy'n codi o'r adolygiad hyd yn hyn.

Rhaid wrth ganlyniadau clir pan fydd unigolyn, boed yn blentyn ynteu'n oedolyn, yn torri'r gyfraith. Ond, er mwyn amddiffyn ein cymunedau'n iawn, rhaid i'r canlyniadau hyn roi'r cymorth a'r cyfleoedd angenrheidiol i unigolion er mwyn iddynt gael eu hadsefydlu'n llawn a gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas. Rhaid i addysg fod wrth galon hyn a dyna'n union y mae'r canfyddiadau a'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad dros dro hwn yn ceisio'i sicrhau.

Yn ystod gweddill yr adolygiad, rwyf wedi gofyn i Charlie Taylor hefyd archwilio sut yr ymdrinnir â throreddwyr ifanc yn y llysoedd, a'r dedfrydau sydd ar gael i fynd i'r afael â'u troseddu. Bydd yr adolygiad felly'n ategu'r gwaith yr wyf wedi gofyn i'r Arglwydd Brif Ustus ei gefnogi i ddatblygu cynigion ynghylch defnyddio rhagor ar ddulliau datrys problemau yn y llysoedd. Bydd ystyried y llysoedd a dedfrydu hefyd fel rhan o'r adolygiad yn sicrhau bod modd i gynigion ar gyfer gwell system cyfiawnder ieuenctid fod yn wirioneddol drawsnewidiol.

Rwy'n hynod o ddiolchgar i Charlie Taylor am ei waith hyd yn hyn, a gwn ei fod yntau yn ei dro wedi elwa'n fawr iawn o ddoethineb a phrofiad y nifer fawr o bobl y mae wedi cyfarfod â hwy yn ystod yr adolygiad. Rwy'n edrych ymlaen at rannu ein canfyddiadau a'n cynigion ar gyfer newid pan gyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf.



**Michael Gove**

# Rhagarweiniad

1. Mae'r adolygiad hwn o'r system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr yn cynnig cyfle i adeiladu ar sail cryn lwyddiant. Ers i nifer y bobl ifanc y profwyd iddynt droseddu gyrraedd ei anterth yn 2006/07, mae'r nifer sydd wedi'u dyfarnu'n euog neu wedi cael rhybuddiad wedi gostwng 77%, ac mae nifer y plant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf wedi gostwng 81%. Yn sgil hyn, mae nifer y plant a gedwir yn y ddalfa wedi gostwng 64% ac erbyn hyn wedi cyrraedd y lefel isaf a gofnodwyd erioed. Mae hyn yn llwyddiant rhyfeddol, ac mae pawb sy'n gweithio yn y system cyfiawnder ieuencid yn haeddu clod enfawr. Wedi dweud hynny, mae 'na grŵp o blant o hyd sy'n dal i droseddu, rhai ohonynt dro ar ôl tro, gan greu dioddefwyr ac ennyn ofn mewn llawer o gymunedau, felly ni allwn fforddio bod yn ddidaro ynghylch hyn.
2. Mae'r llwyddiannau hyn hefyd yn codi cwestiynau. Gan fod llai o bobl ifanc sydd ag angen gwasanaethau troseddau ieuencid, ai'r trefniadau presennol ar gyfer ymdrin â hwy yw'r rhai cywir? A oes angen ymateb gwahanol ar gyfer troseddwr ifanc heddiw? Ac, yn fwy sylfaenol, ai'r canlyniadau y mae'r system yn ceisio'u sicrhau yw'r canlyniadau cywir? Ymhlith y bobl rydym wedi clywed ganddynt, mae consensws, fwy neu lai, mai'r plant sy'n dal i fod yn y system yw'r rheini sy'n dangos yr ymddygiad mwyaf heriol a'r ymddygiad hwnnw wedi magu gwreiddiau. Y plant hyn hefyd sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Er bod nifer y troseddwr ifanc wedi gostwng, mae'r gyfradd aildroseddu'n gyffredinol wedi codi, felly mae'n amlwg bod heriau sylweddol o hyd.
3. Wrth geisio ateb y cwestiynau hyn a datblygu cynigion ar gyfer system cyfiawnder ieuencid fwy effeithiol, ein prif nod oedd gwrando'n ofalus ar farn y rhai sy'n ymwneud â'r system: ymarferwyr, a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r tîm adolygu wedi treulio llawer o'i amser yn ymweld â thimau troseddau ieuencid a sefydliadau diogel ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal ag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Sbaen, gan siarad â staff y rheng flaen ac â phlant. Yn ogystal â hynny, rydym wedi treulio amser gyda'r heddlu ac ynadon, a hefyd gyda'r rheini sy'n darparu gwasanaethau ehangach i blant. Mae arbenigedd ac ymroddiad cynifer o bobl sy'n gweithio gyda rhai o blant mwyaf anodd a chythryblus ein cymdeithas wedi creu argraff arnom drwy gydol ein gwaith. Rydym hefyd wedi ceisio dysgu gan arbenigwyr, edrych ar y sylfaen dystiolaeth, a gwrando ar farn a chynigion ystod eang o randdeiliaid y tu allan i'r Llywodraeth. Mae'r ystod eang o gyrff yn y trydydd sector sy'n helpu plant yn y ddalfa ac yn y gymuned wedi creu argraff arbennig arnom, a hefyd y mudiadau lobiö effeithiol iawn a'r elusennau sy'n cryfhau proffil cyfiawnder ieuencid, yn gwneud gwaith ymchwil ac yn cynnig cyngor. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser a'u hegri o'u gwirfodd i gefnogi gwaith yr adolygiad.
4. Ymdrech yw'r adolygiad i edrych ar y system cyfiawnder ieuencid drwy lygaid newydd, ond rydym wedi seilio'n gwaith ar ddwy brif egwyddor. Y gyntaf yw ei bod yn iawn inni drin plant sy'n torri'r gyfraith yn wahanol i oedolion. Mae plant yn gwneud camgymeriadau - rhai'n llai pwysig, eraill ag oblygiadau sy'n newid bywydau - ac er ei bod yn rhaid i'r system cyfiawnder ieuencid, a hynny'n gwbl deg, geisio cywiro'r niwed sydd wedi'i wneud ac amddiffyn cymunedau, rhaid inni seilio ein hymagwedd ar uchelgais, sef helpu plant sy'n troseddu i oresgyn eu hanawsterau.
5. Yr ail egwyddor yw ei bod yn rhaid i addysg fod yn ganolog i system cyfiawnder ieuencid effeithiol. Ochr yn ochr â'r gostyngiad yn y nifer sy'n troseddu, gwelwyd hefyd fod presenoldeb yn yr ysgol a chyrhaeddiad disgyblion wedi gwella, a bod llai'n cael eu gwahardd. Mae addysg yn bwysig i

bob plentyn, ond i'r rheini sy'n troi at droseddu, mae'n hanfodol. Mae angen inni ganolbwyntio'n ddygn ar sicrhau ein bod yn rhoi i'r plant sy'n torri'r gyfraith y sgiliau, y cymwysterau a'r gallu i fyw bywydau llwyddiannus gan gadw'r gyfraith. Rhaid i'n disgwyliadau ar gyfer y plant hyn fod yr un mor uchel ag ar gyfer unrhyw blant eraill.

6. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad, ac yn sgil hynny, sonnir am rai o'r syniadau sy'n codi mewn nifer o feysydd. Yn ystod y misoedd cyntaf, rydym wedi edrych yn benodol ar ddyfodol ystâd y dalfeydd i bobl ifanc. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gweledigaeth ar gyfer ffordd wahanol o edrych ar gadw pobl ifanc yn y ddalfa. Mae hyn yn deillio o'r pryder am y ddarpariaeth bresennol - pryder sydd wedi dwysáu'n ddiweddar yn sgil honiadau am gamymddwyn gan staff yng Nghanolfan Hyfforddi Diogel Medway - ac o'n huchelgais i seilio ein hymagwedd at gyfiawnder ieuencid ar ymrwymiad i addysg. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys ein syniadau cychwynnol am wasanaethau troseddau ieuencid sydd wedi'u seilio mewn awdurdodau lleol, a'r cyfleoedd i ddatganoli rhagor o reolaeth dros y system i bartneriaid lleol neu ranbarthol. Yn ystod ail hanner yr adolygiad, byddwn yn meddwl rhagor am feysydd eraill, megis ymateb cychwynnol yr heddlu ac asiantaethau eraill i droseddau a gyflawnir gan blant, ochr yn ochr ag ystyried o'r newydd yr hyn sy'n digwydd yn llysoedd a dedfrydu.

# Meddwl o'r newydd am gadw pobl ifanc yn y ddalffa

## Ystâd y dalfeydd i bobl ifanc

7. Ar hyn bryd, mae tua 1,000 o blant yng Nghymru a Lloegr wedi'u cadw ar remand neu wedi'u dedfrydu i gyfnod yn y ddalffa gan y llysoedd. Yn 2008/09, roedd y ffigur hwn ychydig dros 3,000. Mae'r gostyngiad sylweddol a chyflym hwn ym mhoblogaeth y bobl ifanc a gedwir dan glo wedi dylanwadu'n fawr ar gyfansoddiad yr ystâd ddiogel ac mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn datgomisiynu lleoedd ym mhob un o dri sector y dalfeydd i bobl ifanc. Er 2009 mae dros 2,000 o leoedd mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc wedi'u datgomisiynu, gan gynnwys cau 12 sefydliad unigol. At hynny, mae Canolfan Hyfforddi Diogel Hassockfield yn Sir Durham wedi cau, ac mae 81 o leoedd mewn Cartrefi Diogel i Blant wedi'u datgomisiynu.
8. Canlyniad hyn yw bod ystâd y dalfeydd i bobl ifanc yn llai o ran ei maint, ond bod hyn wedi digwydd yn ddamweiniol yn hytrach na'i fod wedi'i gynllunio. Mae'r ffaith bod llai o sefydliadau i gadw pobl ifanc yn golygu bod plant ar gyfartaledd bellach yn cael eu lletya ymhellach oddi cartref, sy'n golygu teithiau hwy i'r llys ac oddi yno a thanseilio'r ymdrechion i'w hadsefydlu. Yn yr un modd, mae rheoli aflonyddwch yn yr ystâd a'r problemau sy'n gysylltiedig â pherthyn i gangiau yn mynd yn fwy dyrus a hynny ar adeg pan fo lefelau trais mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn cynyddu.
9. At hynny, er bod y boblogaeth o bobl ifanc sydd dan glo'n llai o ran nifer, mae'r boblogaeth hon yn cynnwys y troseddwr ifanc mwyaf mynych a chythryblus, ac felly mae gofyn cael gwell gwasanaethau a staff medrus. Mae lefel ymrwymiad, penderfyniad a dewrder y staff sy'n gweithio o dan amgylchiadau eithriadol o heriol er mwyn gwneud eu sefydliadau'n fannau mwy diogel ac adeiladol i blant wedi creu argraff ar y tîm adolygu. Y gwirionedd, serch hynny, yw bod llawer o'r staff sy'n gweithio mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel heb na'r sgiliau na'r profiad i reoli'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed a heriol sydd o dan eu gofal. Nid ydynt ychwaith wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni'r rolau anodd hyn. Mae'r prinder staff mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc wedi gwneud y sefyllfa'n waeth ac wedi golygu bod plant yn treulio gormod o amser yn eu celloedd heb allu cael gafael digonol ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau adsefydlu, neu fod yr aelodau o'r staff sy'n gofalu amdanynt yn bobl nad ydynt yn eu hadnabod.
10. Er mwyn lleihau aildroseddu a thrawsnewid bywydau'r plant sy'n dod i mewn i'r ystâd ddiogel, ac yn wyneb yr holl heriau a wynebir gan y bobl ifanc hyn, mae angen newid y system bresennol o'i chwyr.

## Addysg yn y ddalffa

11. Mae cysylltiadau cryf rhwng addysg a throseddu. Mae lefelau llythrennedd neu rifedd hanner y bobl ifanc 15-17 oed sy'n mynd i mewn i Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn cyfateb i'r hyn a ddisgwyliid gan blentyn 7 - 11 oed. Mae oddeutu 40% o'r bobl ifanc o dan 18 oed mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc heb fod yn yr ysgol ers iddynt fod yn 14 oed, ac mae bron naw o bob 10 wedi'u

gwahardd o'r ysgol ar ryw adeg. Yn yr un modd, gwyddom y gall fod cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a llai o droseddu. Sicrhau bod plant mewn addysg neu gyflogaeth amser llawn yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o atal pobl ifanc rhag troseddu.

12. Gwelwyd ymdrechion yn ddiweddar i ganolbwyntio rhagor ar addysg yn y ddalfa, ond araf fu'r cynnydd. Mae contractau addysg newydd Sefydliadau Troseddwyr Ifanc y Sector cyhoeddus yn addo 30 awr o addysg yr wythnos, ond ar gyfartaledd, dim ond 17 awr y bydd plant yn y sefydliadau hyn yn eu cael. Mae prinder staff a'r ffaith bod lefelau trais yn cynyddu wedi atal y drefn newydd hon rhag cael ei chyflwyno, ac mewn ambell achos, rhaid i blant aberthu treulio amser yn cymdeithasu â'u cyfoedion er mwyn mynychu dosbarthiadau. Os ydym wedi creu sefyllfa lle bydd pobl ifanc yn gyndyn o ddysgu yn y ddalfa, mae'n amlwg bod yr hyn sydd orau i blant ar brydiau wedi dod yn ail i'w cyfyngu, rheoli risg a sefydlu prosesau unffurf. Yn hytrach na pharatoi plant ar gyfer bywyd ar y tu allan, yn rhy aml mae'r sefydliadau hyn i bob golwg yn dysgu plant sut mae goroesi yn y carchar.
13. Nid yw'r dulliau addysgu a ddefnyddir drwy'r ystâd ddiogel wedi newid i'r un graddau ag y maent yn ein hysgolion. Roedd y tîm adolygu'n synnu o glywed cyfeirio at "arddulliau dysgu" plant er gwaethaf tystiolaeth glir nad yw dulliau addysgu o'r fath nac yn angenrheidiol nac yn effeithiol. Yn yr un modd, rydym yn poeni o ddifrif am sut mae plant yn dysgu darllen. Dylid defnyddio ffoneg wrth ddysgu plant i ddarllen yn y ddalfa, a rhaid i bob athro sy'n gweithio yn y dalfeydd ddeall y dull a ddefnyddir wrth ddysgu plant i ddarllen yn eu sefydliad er mwyn iddynt chwarae eu rhan.
14. Ni ddylid addasu'r hyn a ddisgwylir gan blant, dim ond oherwydd bod eu hymddygiad yn gallu bod anodd iawn ar brydiau. Mae'n demtasiwn mawr dewis yr opsiwn hawdd a gadael i blant fynd i'r dosbarthiadau neu'r cyrsiau y maent yn eu mwynhau fwyaf yn unig. Mae llawer o hyfforddiant galwedigaethol adeiladol yn digwydd yn y ddalfa, ond mae angen sicrhau hefyd bod digon o ganolbwyntio ar flociau adeiladu Saesneg a mathemateg. Ychydig o swyddi sydd erbyn hyn lle nad oes angen lefelau da o lythrennedd a rhifedd. Ni waeth pa lefel y byddant wedi'i chyrraedd wrth ddod i'r ddalfa, rhaid peidio â chaniatáu iddynt fynd oddi yno'n methu darllen.
15. Rhaid i blant yn y ddalfa gael addysg o'r safon uchaf gan weithwyr proffesiynol ardderchog er mwyn cywiro'r difrod a achoswyd yn sgil diffyg ymgysylltu a phresenoldeb anghyson. Efallai mai'r canfyddiad sy'n achosi'r pryder mwyaf inni yw mai anaml y gwelwyd yr un diwylliant o ddyhead a disgyblaeth mewn dalfeydd i bobl ifanc ag sydd i'w weld yn amlwg yn rhai o'r ysgolion gorau sy'n cynnig darpariaeth amgen – er bod gan lawer o'r disgyblion yn y rheini yr un nodweddion â phlant sydd yn y ddalfa. Hyd yn oed yn y sefydliadau hynny lle mae ansawdd yr addysg yn well, mae bwlch amlwg o hyd rhwng y ddarpariaeth hon a'r ddarpariaeth orau yn y gymuned.
16. Wrth geisio gwella'r sefyllfa hon, rhaid inni gydnabod bod pen draw ar i ba raddau y gall diwylliant dysgu adeiladol fwrw gwreiddiau mewn amgylchedd carchar sy'n cael ei lywodraethu gan y rheolau a'r gweithdrefnau sydd ar waith - lle a sefydlwyd yn bennaf i gadw pobl dan glo. Ychydig o ryddid sydd gan arweinwyr dalfeydd i bobl ifanc i arloesi neu roi newidiadau ar waith yn eu trefniadaeth, i gomisiynu'r gwasanaethau sy'n ofynnol, neu hyd yn oed i recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain. At hynny, mae gwahanol reolau, gwahanol fframweithiau arolygu a gwahanol lefelau o adnoddau'n cyfyngu ar sectorau dalfeydd yr ifanc.
17. Er mwyn dychmygu math cwbl wahanol o ddalfeydd i bobl ifanc, a sefydlu ymagwedd newydd,

rhaid inni edrych ar yr ysgolion llwyddiannus sy'n cynnig darpariaeth amgen. Mae darpariaeth amgen yn disgrifio ysgolion i blant nad ydynt yn gallu ffynnu yn addysg y brif ffrwd, ac mae'r rhain yn cynnwys unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig a sefydliadau eraill a gynhelir gan ymddiriedolaethau academaïau neu gyrff y trydydd sector, a llawer o'r rheini'n arbenigwyr ar gefnogi plant sydd ag anawsterau ymddygiad. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o ysgolion rhydd sy'n cynnig darpariaeth amgen wedi agor yn Lloegr sy'n cael eu hariannu gan yr Adran Addysg ac awdurdodau lleol, ac mae llawer o'r rhain wedi bod yn arbennig o effeithiol yn gweithio gyda rhai o'r plant mwyaf heriol sydd wedi'u gwahardd o ysgolion y brif ffrwd. Mae'r rhain yn cynnwys Everton in the Community a Derby Pride, y ddau gynllun yn gysylltiedig â chlybiau pêl-droed lleol, Stone Soup Learns sy'n cael ei gynnal gan fudiad trydydd sector yn Nottingham ac academi EBN yn Birmingham a sefydlwyd gan grŵp o ysgolion y brif ffrwd. Mae'r ysgolion gorau sy'n cynnig darpariaeth amgen yn cyfuno addysgu trwyadl â'r dull therapiwtig sydd ei angen i sicrhau bod plant yn gallu ymroi'n llwyr i'r dysgu. Dyma'r arbenigedd sydd ei angen ym maes dalfeydd i bobl ifanc.

## Ysgolion sy'n cynnig darpariaeth ddiogel amgen

18. Er mwyn sicrhau bod addysg mewn gwirionedd yn cael ei rhoi wrth galon dalfeydd i bobl ifanc, rhaid inni feddwl o'r newydd am garchardai i bobl ifanc a'u gweld yn hytrach yn ysgolion. Uchelgais yr adolygiad yw gweld dalfeydd llai'n cael eu creu ar ffurf ysgolion diogel. Byddai'r rhain yn cael eu sefydlu mewn ffordd debyg i'r ysgolion rhydd sy'n cynnig darpariaeth amgen yn Lloegr, a byddent yn cael eu lleoli yn y rhanbarthau y maent yn eu gwasanaethu. Am mai ysgolion fyddai'r rhain, byddent yn cael eu harolygu o dan y fframwaith addysg ac yn gorfod cydymffurfio â'r un safonau ag ysgolion sy'n cynnig darpariaeth amgen, gan sicrhau bod y gwasanaethau diogelu, gwarchod ac adsefydlu'n destun craffu priodol. Yn hytrach na cheisio llusgo addysg i mewn i garchardai pobl ifanc, dylem greu ysgolion i droseddwy'r ifanc a gosod y trefniadau diogelwch angenrheidiol ar waith ar ben hynny.
19. Un peth pwysig yw y byddai gan benaethiaid yr ysgolion diogel hyn yr annibyniaeth a'r hyblygrwydd i gomisiynu gwasanaethau megis cymorth iechyd meddwl a therapi lleferydd, i recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain, ac i greu diwylliant a fyddai'n gwella cyrhaeddiad ac ymddygiad y bobl ifanc ac yn eu hadsefydlu mewn amgylchedd adeiladol a therapiwtig. Byddai'r ysgolion hyn hefyd yn cydweithio'n agos â rhieni a byddai ganddynt well cysylltiadau ag addysg a gwasanaethau eraill yn y gymuned, efallai fel rhan o ymddiriedolaeth sawl-academi, gan hybu trefniadau adsefydlu mwy effeithiol a chyfle i barhau i fanteisio ar addysg, hyfforddiant neu waith ar ôl rhyddhau. Byddai'r ysgolion hyn yn rhoi cymorth i blant ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r gymdeithas gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol ac yn ddiogel, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd iddynt fynychu addysg a hyfforddiant yn ôl yn eu cymunedau.
20. Rydym yn trafod â'r Adran Addysg ac â Llywodraeth Cymru y broses y gellid ei dilyn i greu ysgolion diogel o'r fath. Mae angen meddwl rhagor am gyfuno'r dyletswyddau a'r camau diogelu sy'n berthnasol i gadw pobl ifanc dan glo â'r rheini sy'n berthnasol i ysgolion, a rhoi ar waith drefniadau goruchwylio priodol sy'n golygu bod modd mynd i'r afael yn drwyadl ag unrhyw bryderon. Yn yr un modd, mae symud at ystâd sy'n cynnwys nifer fwy o sefydliadau bach a'r rheini'n cael eu llywio gan addysg yn gosod heriau ariannol a gweithredol, ac rydym yn archwilio ystod o opsiynau ar



gyfer gwireddu'r weledigaeth hon. Yn y tymor byr i'r tymor canol, byddai lleoedd yn yr ysgolion diogel hyn yn debygol o gael eu comisiynu gan Lywodraeth y DU, ond yn y tymor hwy, byddwn yn archwilio cyfleoedd i ddatganoli 'r cyfrifoldeb am gomisiynu a'r gyllideb ar gyfer hyn i ardaloedd lleol neu gyrff rhanbarthol (gweler paragraffau 29-33 isod). Bydd rhagor o fanylion a chynlluniau yn adroddiad terfynol yr adolygiad ym mis Gorffennaf.

21. Dros gyfnod, byddai'r adolygiad yn disgwyl i'r ysgolion diogel hyn ddisodli'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth bresennol i bobl ifanc mewn dalfeydd, ond rydym yn rhagweld y bydd angen darpariaeth fwy arbenigol o hyd ar gyfer y plant ieuengaf a mwyaf agored i niwed sy'n cael eu caethiwo gan y llysoedd.

## Gwasanaethau troseddau ieuentid yn y gymuned

22. Un o brif gryfderau'r system cyfiawnder ieuentid yn ddiamau fu darparu gwasanaethau lleol aml-ddisgyblaeth i droseddwr ifanc. Yn y blynyddoedd diwethaf, serch hynny, mae'r model hwn wedi esblygu mewn sawl rhan o Gymru a Lloegr, ac ar yr un pryd, mae'r galw am wasanaethau troseddau ieuentid wedi newid. Un cwestiwn pwysig ar gyfer yr adolygiad yw ai'r Timau Troseddau Ieuentid, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ac yn cael eu diffinio ynddi, yw'r ffordd orau o hyd i ddarparu gwasanaethau troseddau ieuentid yn y gymuned.
23. Mae 156 o Dimau Troseddau Ieuentid yng Nghymru a Lloegr, ac mae pob un yn teilwra'i wasanaethau i adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran daearyddiaeth, demograffeg, llwyth achosion a blaenoriaethau lleol, yn ogystal â strwythurau a sefyllfa ariannol awdurdodau lleol. Bydd pob Tîm Troseddau Ieuentid yn cyflawni ei swyddogaeth statudol, sef goruchwyllo'r dedfrydau'r llysoedd, ond bydd yr ymyraethau y maent yn eu darparu fel rhan o'r dedfrydau hyn yn aml yn cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith yn lleol. Yn yr un modd, gwelir gwahaniaethau o ran i ba raddau y bydd y Timau Troseddau Ieuentid yn ymwneud â gwaith atal troseddu neu'n dargyfeirio mân-droseddwr o'r system. Mae gwaith amlasiantaeth wedi bwrw gwreiddiau ar ryw lefel ym mhob ardal, ac mae ymroddiad a gwybodaeth rheolwyr ac ymarferwyr y rheng flaen sy'n gweithio yn y timau hyn wedi creu argraff ar y tîm adolygu.
24. Mae llwyth achosion statudol y Timau Troseddau Ieuentid wedi gostwng 74% er 2006/07 ac, fel y nodwyd uchod, mae gan y rheini sy'n dal i fod o fewn y system cyfiawnder ieuentid ystod o anghenion cymhleth sy'n gysylltiedig â'u lles, eu hiechyd a'u haddysg. Mae gofyn ystyried yr anghenion hyn yn ofalus ac mae angen i nifer o bartneriaid ymateb mewn ffordd gydlynol, sy'n golygu bod y cysylltiad rhwng Timau Troseddau Ieuentid, gwasanaethau i blant, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau addysg yn fwy hanfodol byth er mwyn mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd troseddu.
25. Rydym wedi ein calonogi o weld nifer o fodelau arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau troseddau ieuentid sy'n ceisio cryfhau'r cysylltiadau hyn. Yn Surrey, er enghraifft, mae'r gwasanaeth troseddau ieuentid wedi cael ei integreiddio'n llwyddiannus i wasanaethau ieuentid ehangach



yr awdurdod. Mae hyn yn golygu bod plentyn neu berson ifanc sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu cael gafael ar yr un sbectrwm cyffredinol o ddarpariaeth â phlentyn sy'n ddigartref, heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd ag anghenion lles eraill. Mae hyn yn hybu ymateb mwy cynhwysfawr i bobl ifanc sy'n troseddu ac yn golygu bod mwy o gyfle i ddargyfeirio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol ac at wasanaethau effeithiol, sy'n cynnig rhagor o hyblygrwydd o ran hyd a dwyster y cymorth a ddarperir. Gwelwyd dulliau tebyg yn cael eu defnyddio yn Oldham, Swydd Gaerloyw, ac yn Kingston a Richmond, ond ym mhob un o'r ardaloedd hyn, roedd gwasanaethau troseddau ieuentid a chymorth yn cael eu darparu gan gwmnïau budd cymunedol neu grwpiau eraill. Mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr mae awdurdodau lleol wedi cyfuno'u Timau Troseddau Ieuentid er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn nifer y troseddwr ifanc ac er mwyn cyrraedd pobl yn well a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

26. At hynny, mae'r Gweinidog Cyfiawnder yn gweithio gyda'r Adran Addysg i gefnogi'r Campus Educational Trust wrth iddi ddatblygu cynlluniau ar gyfer ysgol rydd The Campus. Math cwbl newydd o ysgol i droseddwr ifanc fyddai The Campus, a'i nod yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n aildroseddu drwy gyfrwng addysg.
27. Er bod rhai swyddogion awdurdodau lleol wedi pwysleisio pwysigrwydd Deddf 1998 sy'n mynnu bod partneriaid yn dod at ei gilydd mewn timau amlasiantaeth, mae llawer hefyd wedi gofyn am ragor o ryddid i'w galluogi i addasu eu gwasanaethau er mwyn ymateb i'r galw presennol ac er mwyn eu hintegreiddio'n well â'u gwasanaethau lleol i blant a theluoedd, pobl ifanc neu wasanaethau iechyd meddwl. Yn ogystal â hyn, mewn ambell ardal mae rhai'n poeni bod bodolaeth Tîm Troseddau Ieuentid i bob golwg wedi rhoi cyfle i wasanaethau lleol eraill ymbellhau oddi wrth blant sy'n troseddu er bod angen eu cymorth ar y plant hynny.
28. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi sy'n arolygu gwasanaethau Timau Troseddau Ieuentid awdurdodau lleol ac mae gwasanaethau plant eraill yn cael eu harolygu gan Ofsted yn Lloegr a chan Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Nghymru. Byddwn yn ystyried ai'r drefn hon yw'r drefn briodol o hyd.

## System cyfiawnder ieuencid fwy datganoledig

29. Mae'r system cyfiawnder ieuencid eisoes wedi'i datganoli'n rhannol i ardaloedd lleol, ond mae rhai agweddau pwysig - darparu dalfeydd ieuencid a monitro perfformiad, er enghraifft - yn dal i fod o dan reolaeth Llywodraeth y DU. Mae'r rhaniad anesmwyth hwn rhwng cyfrifoldebau canolog a lleol yn golygu nad yw'r cymhellion bob tro'n gyson ac nad yw'r gwasanaethau wedi'u hintegreiddio fel y dylent fod. Mae'r diffyg integreiddio hwn ar ei amlycaf pan fydd person ifanc yn symud o'r ddalfa i gael ei oruchwyllo yn y gymuned.
30. Mae'r adolygiad yn awyddus i ddatganoli rhagor o gyfrifoldeb am ddarparu cyfiawnder ieuencid a'i ariannu i ardaloedd lleol a rhoi rhagor o hyblygrwydd iddynt gynllunio a rheoli'r system er mwyn iddi gydweddu â'u blaenoriaethau a'u hanghenion. Yn gefn i hyn, dylid sicrhau system atebolrwydd a monitro symlach lle bydd llai o osod y drefn o'r canol, a mwy o ryddid i bartneriaid lleol arloesi a chydweithio.
31. Bydd yr adolygiad yn ystyried dichonoldeb datganoli'r gyllideb a'r cyfrifoldeb comisiynu ar gyfer dalfeydd i bobl ifanc i ardaloedd lleol neu gyrff rhanbarthol ac i Lywodraeth Cymru. Byddai hyn yn golygu y gallaiartneriaid lleol ystyried comisiynu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion carfan ehangach o bobl ifanc agored i niwed, gan gynnwys plant mewn gofal a'r rheini y mae gofyn iddynt gael darpariaeth iechyd meddwl ddiogel - a gwasanaethau sy'n erydu'r ffin llym rhwng y ddalfa a darpariaeth yn y gymuned.
32. Mae'r tîm adolygu wedi cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru, Swydd Gaerloyw, Surrey a Sussex a Gornllewin Swydd Efrog, yn ogystal â swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Manceinion Fwyaf, Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau yn Llundain, a phartneriaeth o awdurdodau lleol gyda'r heddlu yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Mae pawb wedi dweud mai eu huchelgais yw cael rhagor o reolaeth dros ddarparu gwasanaethau cyfiawnder er mwyn cronni adnoddau, integreiddio swyddogaethau a chomisiynu gwasanaethau'n fwy strategol, ac mae nifer wrthi'n datblygu cynigion sy'n llywio ein ffordd o feddwl.
33. Bydd system cyfiawnder ieuencid sydd wedi'i datganoli fwy yn golygu bod llai o rôl o lawer i'r canol. Bydd angen i Lywodraeth y DU oruchwyllo pethau o hyd, yn enwedig yn ystod y broses bontio wrth symud at fodelau darparu sy'n fwy lleol neu ranbarthol, a bydd yn bwysig sicrhau cysylltu a chydlynu agos. Rhagwelir y bydd y rôl hon i'r canol yn cynnwys gosod safonau a'r fframwaith atebolrwydd, a sicrhau bod digon o ddalfeydd ar gael yn genedlaethol. Mae'n hanfodol bod cyfiawnder ieuencid yn dal i gael ei ystyried gan Weinidogion ar wahân i'r system cyfiawnder troseddol i oedolion.

## Sut mae'r system cyfiawnder ieuencid yn ymateb i blant sy'n torri'r gyfraith.

34. Mae'n eithriadol o galonogol gweld y duedd yn parhau o ran bod llai o bobl ifanc yn dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf. Mae'n well o lawer ymdrin yn ddiymdroi â'r problemau sy'n arwain person ifanc i droseddu, a lle bo modd, mae'n well gwneud hynny y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r ffactorau risg sy'n gwneud i blant fod yn fwy tebygol o droseddu wedi'u dogfennu'n dda, ond yn rhy aml mae'r gwasanaethau sy'n cael eu sefydlu i gefnogi teuluoedd a phlant sy'n wynebu anawsterau'n methu ag ymyrryd yn effeithiol neu'n ddigon buan. Gobeithio y bydd datganoli rhagor o gyfrifoldebau am gyfiawnder ieuencid i ardaloedd lleol, gan gynnwys o bosibl y gyllideb a threfniadau comisiynu dalfeydd ieuencid, yn hybu buddsoddi mewn gwaith ataliol sydd wedi'i dargedu ac integreiddio mwy clos rhwng gwasanaethau atal a gwasanaethau troseddau ieuencid.

### Dargyfeirio

35. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn gallu pardduo rhai plant gan eu gwneud yn fwy tebygol o droseddu eto, a bod dargyfeirio mân-droseddwydr drwy ymateb yn anffurfiol er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfiawnder adferol neu gynnig llwybr at wasanaethau cymorth penodol, yn aml yn gallu bod yn fwy effeithiol ac effeithlon na defnyddio sancsiynau ffurfiol y llysoedd. Mae'r dystiolaeth yn llai clir, er hynny, ynghylch pa ymyraethau sy'n gweithio gyda throseddwydr ifanc penodol, ac yn ystod pa gamau yn y system.
36. Mae'r tîm adolygu wedi gweld nifer o enghreifftiau ardderchog o ddargyfeirio ystyriol a chymesur, gan gynnwys yng Nghaerdydd lle mae elusen leol yn rhedeg gwasanaeth sydd ag enw da iawn. Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio eto'r cyfleoedd i ddargyfeirio plant o'r system lle na fydd gofyn ymateb yn ffurfiol i'w troseddu, neu lle bydd gwasanaethau eraill mewn gwell sefyllfa i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd y troseddu hwnnw.

### Defnyddio dalfeydd yr heddlu

37. Lle bydd plant yn cael eu harestio a'u caethiwo gan yr heddlu, mae'n hanfodol bod y camau diogelw a'r dyletswyddau a restrir yn y ddeddfwriaeth yn cael eu rhoi ar waith ar lefel ymarferol. Dylem anelu at weld plant yn treulio cyn lleied â phosibl yn nalfeydd yr heddlu ag sydd ei angen er mwyn cwblhau'r prosesau hanfodol. Yn ystod eu cyfnod yno, dylid rhoi sylw priodol i'r ffaith eu bod yn agored i niwed. Mae'n galonogol bod pobl ifanc 17 oed bellach yn cael eu trin fel plant yn nalfar heddlu, ond mae'n anodd asesu'i ba raddau y llwyddir i gyflawni'r uchelgais ehangach hon oherwydd mai ychydig o ddata sy'n cael eu casglu'n rheolaidd am gadw plant yn nalfar heddlu.
38. Mae rôl eiriolaeth ac oedolion priodol ym mhroses gyfweld yr heddlu'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod plant yn cael y cyngor a'r warchodaeth sydd eu hangen arnynt. Rydym yn poeni, er hynny, bod llawer o blant yn treulio cyfnod hir yn y ddalfa tra bo'r heddlu'n ceisio trefnu'r gwasanaethau hyn. Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i weld a oes cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth oedolion priodol i blant.

39. Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol yn methu â darparu llety i blant y gwrthodir mechniaeth iddynt gan yr heddlu ac sydd felly'n gorfod treulio'r nos yn y celloedd. Rydym yn croesawu gwaith rhwng y Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg i sefydlu concordat i fynd i'r afael â'r broblem hon yn Lloegr, a gwaith rhwng Llywodraeth Cymru, yr heddlu ac awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau yng Nghymru. Yn yr un modd, rydym yn dal i boeni bod dalfeydd yr heddlu'n cael eu defnyddio'n amhriodol i gadw plant sy'n wynebu argyfyngau iechyd meddwl ac sydd ag angen lle diogel. Mae'n hanfodol bod gweithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS), yn ymwneud yn glos â hyn er mwyn blant gael y cymorth sydd ei angen arnynt a bod yr heddlu'n gallu trosglwyddo achosion o'r fath i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

## Goblygiadau dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid

40. Rhaid inni sicrhau nad yw'r cysylltiad rhwng plentyn â'r system cyfiawnder troseddol, yn enwedig lle bydd hyn yn rhywbeth dros dro neu'n ganlyniad mân-droseddu, yn amharu fwy nag y dylai ar ei ragolygon o wireddu ei ddyheadau a chwarae rhan lawn yn y gymdeithas. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniadau tymor hir cael cofnod troseddol yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng amddiffyn y cyhoedd a chyflogwyr rhag risg a hybu ailintegreiddio ac adsefydlu troseddwr ifanc.
41. Yn olaf, rydym yn poeni bod nifer y plant sy'n derbyn gofal a phlant o rai grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n annheg yn y system cyfiawnder ieuencid. Un peth sy'n cyfrannu at y broblem hon yw'r ffordd y bydd plant sy'n camymddwyn mewn cartrefi gofal yn cael eu trin fel troseddwr er na fyddai'r un math o gamymddwyn byth yn arwain at ymateb tebyg petai wedi digwydd mewn ysgol neu gartref gyda'r teulu. Mewn rhai ardaloedd, megis yn Surrey a Sussex, mae ganddynt weithwyr cartrefi gofal sydd wedi'u hyfforddi i helpu cartrefi i reoli ymddygiad o'r fath yn well, ac maent wedi sefydlu protocolau ar gyfer pa bryd y mae'n iawn iddynt alw'r heddlu. Bydd yr adolygiad yn ystyried beth arall y gellir ei wneud, gan gynnwys rhoi hyblygrwydd i'r heddlu wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Byddwn hefyd yn ystyried yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y system cyfiawnder troseddol er mwyn gweld pa gamau y gellid eu cymryd yng nghyswllt troseddwr ifanc.